

## **Sul y Blodau**

### **Robin Samuel**

Stori sy'n herio yw stori Sul y Blodau, a hynny am fwy nag un ystyr. Mae'n herio'r syniad cyffredin o awdurdod a grym. Fe groesawyd Iesu i Jerwsalem fel brenin gan y dyrfa. Roedden nhw'n, 'torri canghennau o'r coed palmwydd a mynd allan i'w gyfarfod,' ac yn 'rhoi eu cotiau fel carped ar y ffordd,' fel arwydd o barch. Roedden nhw'n gwaedu 'Hosanna (achub ni)! Clod iddo! Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi ei fendithio'n fawr.'

Ond o edrych yn fanwl nid brenin arferol mohono. Doedd ganddo ddim o'r addurniadau brenhinol. Dim cleddyf yn ei law na choron ar ei ben, ac roedd yn marchogaeth ar ebol asyn. Dod yn ostyngedig ac mewn heddwch wnaeth Iesu, ac mae'n dangos i'r sawl a fyn gweld fod gwir awdurdod a grym yn dangos ei hun yn hynny. Fe'i gwelir mewn cariad ar waith, mewn gwasanaeth gostyngedig i eraill, wrth roi eraill yn gyntaf ac wrth fod yn barod i aberthu er lles eraill. 'Byddwch yn ostyngedig,' medai Paul wrth yr Eglwys yn Philipi, a thrwy hynny rydych yn dangos bod 'eich agwedd chi'r un fath ag agwedd y Meseia Iesu.' (Philipiad 2: 1-11).

Mae'n stori sydd hefyd yn herio ein syniad o heddwch. Daeth Iesu i mewn i'r ddinas yn cynrychioli 'ffordd tangnefedd' (Luc 19:42), ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd mynd i'r afael a systemau gormesol ac ymelwol ei ddydd. Roedd cydgynllwynio rhwng masnachwyr, awdurdodau'r deml a'r awdurdod sifil. Byddai selogion y ffydd Iddewig yn dod o bob rhan o'r byd i Jerwsalem a chynnig arian yn y deml er mwyn cadw gofynion y ddeddf. Yn eu croesawu, ar dir y deml, roedd cyfnewidwyr arian oedd yn barod i newid eu harian i'r arian Iddewig a hynny ar raddfa isel iawn. Doedd hi ddim yn bosibl newid arian tu allan i'r deml. Wedyn roedd masnachwyr yn gwerthu anifeiliaid ar gyfer eu haberthu ar bris llawer uwch na chyfradde4 y marchnadoedd. Unwaith eto doedd hi ddim yn bosibl prynu'r anifeiliaid yma tu fas. Gwelodd Iesu'r anghyfiawnder, a gwelodd mai dim ond trwy fynd i'r afael a'r anghyfiawnder yma y gellid sicrhau gwir heddwch. Aeth i mewn i'r deml a throi byrddau'r cyfnewidwyr arian a'r masnachwyr, a'u gyrru nhw allan o'r deml, gan ddyfynnu geiriau'r proffwyd a fu'n herio anghyfiawnder tebyg yn eu cyfnod hwy.

cael heddwch pan fod 'pawb yn awchu am elw ... a phob un yn gweithredu'n ffals.' (Jeremeia 8: 10-11).

Yn y weithred o lanhau'r deml mae Iesu'n condemnio grymoedd anghyfiawn a gormesol. Mae'n herio systemau a grymoedd llygredig ei gyfnod, oedd yn cael eu cynrychioli gan awdurdodau'r deml a'r rhai sifil - y grymoedd mae Paul yn son amdanynt yn ei Lythyr at yr Effeisiaid, sef 'yr awdurdodau a'r pwerau tywyll sy'n rheoli'r byd yma.' Ac os yw meddwl Crist yn wir ynom ni onid oes rhaid i ninnau weithredu mewn ffordd debyg?

Rhaid parhau i herio'r systemau hyn heddiw. Globaleiddio, economi'r farchnad, rhyddfrydoli ac yn y blaen sy'n effeithio mor andwyol ar bob agwedd o fywyd dynoliaeth a'r greadigaeth, ac yn gyfrifol bod pobl, yn arbennig y tlotaf, yn colli swyddi, tir, cartrefi, bywoliaeth, adnoddau a'i hunaniaeth, heb son am y difrod a wneir i'r amgylchedd. Yn wir yn nadu i bobl yr hawl i fyw.

Wrth ddatlu Sul y Blodau, rhaid i ni ofyn i ni ein hunain lle mae ein grym a'n hawdurdod ni'n gorwedd, ac a ydym yn barod i herio'r awdurdodau a'r grymoedd sy'n creu ac yn cynnal

anhyfiawnder a gormes ar draws ein byd heddiw, ac yn gwneud gwir heddwch mor anodd ei wred5du?d

*Gweddiwn*